

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth Strategol / *Strategic Headteacher*: Mr R. Clive Williams  
Pennaeth Gweithredol / *Acting Headteacher*: Mr Gareth Ll. James

## LLYTHYR YSGOL GYFAN

**Casgliad dillad ailgylchu Bags2School** – Dewch â'r bagiau i'r ysgol ar ddydd Llun, Rhagfyr 1af. Mi fyddant yn cael eu casglu o'r ysgol am 9 o'r gloch ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 2ail.

**Noddi Rhaglen y Cyngerdd Nadolig** : Os oes gennych ddi-ddordeb mewn noddi rhaglen y Cyngerdd Nadolig yna cysylltwch â mi cyn ddydd Llun, Rhagfyr 1af. Mi fydd enw neu hysbyseb eich cwmni / busnes yn ymddangos yn y rhaglen am gyfraniad ariannol o £50 am hysbyseb fach neu £100 am hysbyseb fwy. Mi fydd y noddwyr yn derbyn i fyny hyd at chwe thocyn yn rhad ac am ddim a seddau cadw. Mae cyfraniadau ariannol y noddwyr yn helpu'r ysgol i dalu am y gost o ddefnyddio'r Neuadd Fawr sydd tua £800 - £1000 pob cyngerdd.

**Cyngerdd Nadolig** – nos Fawrth, Rhagfyr 9fed am 6.30 yn y Neuadd Fawr. Mi fydd y disgyblion yn ymarfer yn y Neuadd fawr ar ddydd Llun, Rhagfyr 8fed.

**Cardiau Nadolig** – eleni eto mi fydd Cardiau Nadolig unigol eich plentyn/plant ar gael i chi eu prynu. Bydd y drefn ychydig yn wahanol eleni. Bydd yna 10 o gardiau yn eich cyrraedd mewn pecyn ac ni fydd modd archebu mwy.

-----  
**Bag2School recycling scheme** – *Please bring your bags to school on Monday, December 1<sup>st</sup>. The bags will be collected at 9 o'clock on Tuesday, December 2<sup>nd</sup>.*

**Sponsoring the Programme for the Christmas Concert** – *if you are interested in sponsoring the programme for the Christmas Concert then please contact me by Monday, December 1<sup>st</sup>. The name or advert for your company / business will appear in the programme for a contribution of £50 for a small advert or £100 for a larger advert. The sponsors will receive up to 6 free tickets and reserved seats. The contributions received will help the school to pay for the hire of the Great Hall usually £800 - £1000 per concert.*

**Christmas Concert** – *Tuesday evening, December 9<sup>th</sup> at 6.30 in the Great Hall. Pupils will be rehearsing at the Great Hall on Monday, December 8<sup>th</sup>.*

**Christmas Cards** – *your child/ren's individually designed Christmas Cards will be available for you to buy again this year. There will be a slight difference this year. A pack of ten cards will be sent home with each pupil with no re-orders available.*